**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/RE/0967/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

01 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad) a osodwyd ar 19 Mawrth 2025.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Rwy'n cydnabod y casgliad y daeth y Pwyllgor iddo mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil ar y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR) ac yn croesawu ei gymeradwyaeth o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Rwy'n falch o gadarnhau o ganlyniad i drafodaethau cadarnhaol â Llywodraeth y DU, cyflwynwyd gwelliannau i gymalau 56, 57(3), 57(4), a 57(9) yn Rhan 3 o'r Bil ar 25 Mawrth 2025. Fel y nodir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 a osodwyd ar y Bil ar 3 Ebrill 2025, mae'r gwelliannau hyn wedi darparu'r mesurau diogelu cyfansoddiadol angenrheidiol a byddant yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth bellach sy'n ymwneud â chreu'r NUAR. O ganlyniad, rwyf wedi argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r Bil a rhoi ei chydsyniad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd yr ymgynghorwyd â CLlLC ar y cynigion a'u heffaith bosibl yng Nghymru. Mae CLlLC wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i drafod NUAR a bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau yn rheolaidd wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Ar yr un pryd, ymgysylltwyd yn rheolaidd ag Awdurdodau Lleol drwy gydol proses ddatblygu NUAR ers i'r cam adeiladu ddechrau yn 2021.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning